

Ein Dyfodol Digidol

Map Ffordd Digidol ar gyfer lechyd yng Ngogledd Cymru

2021 - 2024



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Cynnwys

1	Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon	3
2	Neges gan Jo Whitehead, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	4
3	Cyflwyniad	6
4	Uchelgais 1 ac Uchelgais 2	8
5	Galluogwr 1 Sylfeini digidol cryfach	15
6	Galluogwr 2 Gwybodaeth ar gyfer gwella	15
7	Galluogwr 3 Trefniadaeth ddigidol	16
8	Galluogwr 4 Partneriaethau cryf	16
9	Galluogwr 5 Cynhwysiant Digidol	17
10	Galluogwr 6 Cofleidio arloesedd	17
11	Dosbarthu	18



Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Mae hon yn ddogfen hawdd ei darllen ond efallai y bydd angen cefnogaeth arnoch i'w ddarllen o hyd. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.

Lle mae'r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn golygu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

BCU.InformaticsDigitalStrategy@wales.nhs.uk

Cyfeiriad:

Pennaeth GSG - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Ysbyty Gwynedd, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd, LL57 2PW

Neges Gan Jo Whitehead

Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Ers dechrau COVID-19 mae wedi bod yn bwysicach nag erioed defnyddio ffyrdd digidol o weithio i gefnogi ein cleifion a'n staff.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ein ffyrdd o weithio eisoes wedi newid ac maent bellach yn cynnwys:

- Penodiadau a chyfarfodydd rhithwir
- Systemau newydd i ddarparu mynediad hawdd i'r data diweddaraf
- Cefnogi staff i weithio gartref



Rhithwir: Mae hyn yn golygu bod rhywbeth yn digwydd ar-lein yn hytrach nag yn bersonol, fel galwad fideo.

Mynediad: Mae mynediad yn golygu gallu gweld neu gael gwybodaeth sy'n cael ei chadw mewn man penodol.

Data: Gwybodaeth am gleifion neu staff yw hyn sy'n cynnwys eu manylion personol, profion gwaed a chanlyniadau pelydr-x.

Systemau: Rhaglenni cyfrifiadurol yw'r rhain a ddefnyddir gan bobl i gyflawni tasgau penodol.

Mae ffyrdd digidol o weithio yn dod yn fwy cyffredin a'n gweledigaeth ar gyfer y dyfodol yw:

‘Digidol yn gyntaf - gadewch neb ar ôl’

Rydym yn deall bod angen i'n cynllun gefnogi pobl drwy'r newid hwn fel bod ein cleifion, gofalwyr a staff yn cael profiad gwell bob dydd, e.e. gwell amseroedd aros.

Rydym yn gwybod nad yw rhai o'n cleifion ar-lein ond byddwn yn gweithio'n galed i sicrhau nad ydym yn anghofio unrhyw un a bydd gan bob claf well gwasanaeth.

Diolch i'r rhai a helpodd gyda'r cynllun. Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda chi i'w gyflawni.



Digidol: Mae hyn yn disgrifio technoleg cyfrifiaduron, camerâu ac offer sain sy'n cynhyrchu, prosesu a storio data yn electronig.

Cyflwyniad

Mae “trawsnewid profiad, diogelwch a deilliannau’r claf trwy ffyrdd digidol o weithio”

Mae hyn yn golygu gwella taith gofal iechyd ein cleifion, gofalmwr a staff.

Rydym wedi gwneud rhai newidiadau dros y tair blynedd diwethaf, ond mae angen i ni wneud mwy.

Mae’r staff yn rhwystredig wrth iddynt:

- Methu cael mynediad i ddata cleifion yn syml
- Orfod defnyddio gwahanol fanylion mewngofnodi
- Parhau i weithio gydag offer sydd wedi dyddio e.e. hen gyfrifiaduron



Dyfeisiau: Mae dyfeisiau’n cynnwys offer fel cyfrifiaduron, gliniaduron neu ffonau.

Mae cael mynediad i'r wybodaeth gywir, yn y lle iawn, ar yr adeg iawn, yn bwysig wrth helpu staff i allu trin eu cleifion yn y ffordd orau bosibl.

Rydyn ni am roi dewis i gleifion o ran sut maen nhw'n siarad â ni, eu helpu i dderbyn gofal yn haws ac yn gyflymach, a gwybod bod eu gwybodaeth yn ddiogel.

Nid yw'n hawdd newid i ffyrdd digidol o weithio, felly byddwn yn cefnogi staff i wneud hyn. Gyda'r byd digidol yn parhau i newid, byddwn yn diweddarau'r cynllun bob blwyddyn.




Uchelgais 1 & Uchelgais 2

Trwy ein cynllun, mae gennym ddwy uchelgais, sef nodau yr ydym yn gobeithio eu cyflawni.

Rhain yw:

1 Profiad Cleifion a Gofalwyr wedi'u Galluogi

Er mwyn i gleifion a gofalwyr allu defnyddio dulliau digidol i reoli eu gofal eu hunain neu ofalu am eraill, a siarad allan a dweud eu dweud ar wasanaethau




2 Staff wedi eu Cysylltu


Er mwyn i staff gael gafael ar y wybodaeth gywir, yn y lle iawn ar yr amser iawn, gyda'r offer cywir a theimlo eu bod yn cael cefnogaeth wrth ddefnyddio technoleg i wella'r gwasanaethau maen nhw'n eu darparu



Uchelgais 1

Trwy'r cynllun yma, rydym am i'n cleifion a'n gofalwyr gael y profiadau canlynol:





Sut bydd y profiadau hyn yn helpu gwahanol gleifion a gofalwyr?




- Arbedodd Lowri, sy'n fam, 1 awr ar y bws a £30 mewn costau gofal plant oherwydd gall nawr gwrdd â'i Meddyg ar-lein i reoli ei chyflwr arennau
- Bellach gall Elin weld canlyniadau ei phrawf asthma ar-lein a'u cymharu â'i chanlyniadau eraill. Mae hi hefyd yn gallu gweld ei hapwyntiadau eraill a gwneud newidiadau os oes angen

Er mwyn i'n cynllun fod yn llwyddiannus mae angen i ni i gyd gymryd rhan.



Uchelgais 1



Dyma beth roedd rhai o'n cleifion ac eraill yn y gymuned yn meddwl y gallen nhw ei wneud wrth gael eu cyflwyno i'r cynllun newydd:

1. Profi y dechnoleg newydd, dysgu sut mae'n gweithio ac rhoi adborth ar feysydd i'w gwella
2. Defnyddio y dechnoleg newydd gartref a gofyn am help os oes angen
3. Rhannu profiadau da gyda theulu a ffrindiau
4. Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i Feddygon



Bydd uchelgais 1 yn cynnwys newidiadau fel:

- Symud i apwyntiadau ar-lein
- Defnyddio llythyrau a negeseuon destun
- Sefydlu mynediad at gofnodion iechyd digidol

Cofnod Iechyd Digidol: Fersiwn ar-lein o gofnod iechyd papur claf yw hwn. Mae'n cynnwys gwybodaeth fel hanes meddygol, triniaeth a chanlyniadau profion claf.

Uchelgais 2

Trwy'r cynllun hwn,
rydym am i'n Staff gael
y profiadau canlynol:





Sut bydd y profiadau hyn yn helpu ein Staff?

- Mae Sam yn Feddyg sy'n gweithio ar draws dau o'r tri ysbyty. Mae Sam yn arbed amser erbyn hyn drwy mewngofnodi i un system yn hytrach na dwy
- Mae Meinir, Nyrs Ardal, Rob, Gweithiwr Cymdeithasol a Lesley, meddyg teulu lleol i gyd yn gweithio gyda'i gilydd fel tîm. Gallant rannu a diweddarau gwybodaeth cleifion yn ddiogel gyda'i gilydd, felly does dim rhaid iddynt barhau i ofyn yr un cwestiynau i'r claf

Er mwyn i'n cynllun fod yn llwyddiannus mae angen i ni i gyd gymryd rhan.



Uchelgais 2



Dyma beth roedd rhai o'n haelodau staff yn meddwl y gallen nhw ei wneud wrth gael eu cyflwyno i'r cynllun newydd:

1. Cymryd rhan mewn hyfforddiant i wella eu sgiliau digidol
2. Siarad â staff eraill i ddweud sut mae'r ffyrdd newydd hyn o weithio wedi eu helpu nhw a'u cleifion
3. Trafod newidiadau gyda chleifion a bod yn hyderus wrth eu helpu



Bydd uchelgais 2 yn cynnwys newidiadau fel:

- Gwneud apwyntiadau ac atgyfeiriadau ar-lein
- Cymryd rhan mewn cyrsiau i wella sgiliau digidol
- Cadw gwybodaeth ddigidol yn gyfredol
- Mewngofnodi i wahanol systemau gan ddefnyddio un set o fanylion mewngofnodi

Atgyfeiriad: Atgyfeiriad yw pan fydd un gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn gofyn i un arall weld y claf.

Galluogwyr 1-6

Er mwyn gallu cyflawni ein uchelgeisiau, byddwn yn canolbwyntio ar y chwe galluogwr canlynol. Mae galluogwr yn berson neu'n beth sy'n gwneud rhywbeth yn bosibl.



1. Sylfeini Digidol Cryfach


Ein nod yw sicrhau bod gennym y systemau a'r dyfeisiau ar waith i allu cyflawni'r newidiadau sydd eu hangen, yn ddiogel ac mor gyflym â phosibl.



2. Gwybodaeth ar gyfer gwella

Mae'r maint o ddata sydd gennym yn tyfu ac felly mae'n bwysig ei fod yn gywir, yn hawdd ei gyrchu ac yn ddefnyddiadwy.

Galluogwr: Mae hwn yn weithred sy'n gwneud rhywbeth yn bosibl.



3. Trefniadaeth ddigidol

Er mwyn gallu cyflawni ein cynllun, mae angen i ni fod yn Sefydliad Digidol sy'n golygu mwy na chael systemau a phrosesau yn eu lle. Rydym eisiau i'n staff, cleifion a gofalwyr i "Feddwl yn Ddigidol."




4. Partneriaethau cryf

Mae llawer o'n cleifion yn derbyn eu gofal gan wahanol sefydliadau ac rydym eisiau gallu rhannu a derbyn gwybodaeth yn hawdd wrth sicrhau ei bod yn cael ei storio'n ddiogel a'i chadw'n breifat. Bydd hyn hefyd yn golygu na fydd yn rhaid i gleifion ailadrodd eu hanes yn ystod apwyntiadau.



5. Cynhwysiant Digidol

Wrth drafod ein cynllun gyda'n partneriaid, staff a chleifion, roedd pryderon ynghylch gwahardd digidol yn thema gyffredin. Mae pobl hŷn, pobl ag anableddau a phobl â chyflyrau iechyd tymor hir yn llai tebygol o fod ar-lein. Byddwn yn cefnogi pobl i allu defnyddio ein gwasanaethau yn ddigidol, er enghraifft trwy apwyntiadau wyneb yn wyneb.



6. Cofleidio arloesedd

Byddwn yn cadw ar y blaen trwy adolygu technoleg newydd a phresennol i weld sut y gallwn ei defnyddio yn ein cynllun.

Cynhwysiant: Mae cynhwysiant yn golygu y gall pawb gymryd rhan.

Gwahardd Digidol: Gall hyn ddigwydd pan nad oes gan rai fynediad at yr offer, y sgiliau neu'r hyder i ddefnyddio dulliau digidol.

Arloesi: Mae hyn yn ffordd newydd o wneud rhywbeth.

Cyflawni

Mae gennym gynllun ar waith i gyflawni pob Uchelgais a Galluogwr. Mae mwy o fanylion am y rhain i'w gweld yn fersiwn lawn y [Strategaeth Ddigidol sydd i'w gweld yma](#).



Strategaeth: Mae strategaeth yn gynllun i gyflawni nodau pendol.

Ysgrifennwyd y ddogfen hon gan Fwrdd Iechyd
Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'n fersiwn hawdd
ei darllen o Strategaeth 'Ein Dyfodol Digidol'.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board